Cynnig i Newid Gofod Awyr Môr Iwerddon
Crynodeb

Cynigir newidiadau ar gyfer rhan o ofod awyr uwchben Môr Iwerddon, sydd hefyd yn effeithio ar ofod awyr uwchben Gogledd Cymru a gorllewin Swydd Gaerhirfryn o gwmpas Southport, Formby, Skelmersdale ac Ormskirk.

Mae'r newidiadau'n rhan o 'lain gofod awyr swyddogaethol' y DU/Iwerddon, sef ardal lle mae NATS ac Awdurdod Hedfan Iwerddon yn cydweithio â'i gilydd i wella effeithlonrwydd trawsffiniol y system gofod awyr.

Bydd manteision y cynnig ar gyfer Môr Iwerddon yn cynnwys:

- lleihau'r tanwydd a losgir a'r CO_2 sy'n cael ei greu gan draffig awyr sy'n croesi Môr Iwerddon

- llai o gymhlethdod yn y system traffig awyr a fydd, yn ei dro, yn lleihau'r tebygolrwydd o oedi rhwng y DU ac Iwerddon

- darparu strwythurau gofod awyr yn y DU i ategu datblygiad technegol 'point merge' arloesol a ddefnyddir gan Ddulyn i leihau'r angen i ddal awyrennau mewn pentyrrau cyn iddynt lanio.

Bydd cyflawni'r manteision hyn yn golygu symud rhai llifoedd traffig. Bydd hyn yn golygu lleihau hedfan dros rai ardaloedd a chynyddu hedfan dros ardaloedd eraill.

Yn benodol, bydd yn cynyddu nifer yr hediadau dros rannau o Ogledd Cymru, ond dim ond ar uchderau dros 14,500tr. Hefyd, bydd yn symud rhywfaint o draffig i'r gofod awyr 6-7,000tr uwchben Skelmersdale ac Ormskirk, a 9,000tr uwchben Southport a Formby. Fodd bynnag, bydd y rhan hon o'r cynnig yn effeithio ar gyfran fach iawn o awyrennau yn unig, gydag 1 awyren ychwanegol yn y gofod awyr hwn bob 2-3 awr, ar gyfartaledd.

Bydd y cynnig yn effeithio ar yr amseroedd a/neu'r ardaloedd lle y gall awyrenwyr hamdden a'r lluoedd arfog weithredu hefyd.

Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant awyrennau, cynghorau lleol ac ASau ymhlith y rheiny a hysbyswyd am yr ymgynghoriad, ac mae'r deunydd ymgynghori ar gael i bawb ar wefan NATS www.consultation.nats.co.uk. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 22 Gorffennaf 2011.

...diwedd